**IS-DDEDDFAU**

**a wnaed dan**
**Adran 19 o'r Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964**

**gan**

**CYNGOR GWYNEDD**

1. Yn yr Is-ddeddfau hyn, dyma fydd ystyr y termau isod:

   (a) golyga "y Ddeddf" Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964;

   (b) golyga "y gost" unrhyw gostau a godir dan y Rheoliadau;

   (c) golyga "plentyn" unrhyw un dan 11 mlwydd oed;

   (d) golyga "sefyllfa argyfwng" sefyllfaoedd lle mae angen gwagio llyfrgell neu ran o lyfrgell am resymau diogelwch oherwydd:
   - bygythiad tân neu faterion peryglus tebyg
   - camrybudd di sail

   (e) golyga "cyfeiriad cydnabyddedig" y cyfeiriad cartref diwethaf sydd ar gofnodion y gwasanaeth llyfrgell ar gyfer unigolyn;

   (f) golyga "yr awdurdod llyfrgell" Cyngor Gwynedd;

   (g) golyga "llyfrgell"

      i adeiladau sydd yn eiddo i'r awdurdod llyfrgell a lle mae adnoddau sy'n arferol mewn llyfrgelloedd i'w cael gan yr awdurdod ac i'r cyhoedd fel rhan o'r gwasanaeth llyfrgell;

      ii unrhyw gerbyd sydd â chyfleusterau ynddo sydd yn cael ei ddefnyddio gan yr awdurdod llyfrgell i roi gwasanaeth llyfrgellyddol i'r cyhoedd,

   ac y mae yn cynnwys unrhyw ran o'r cerbydau a'r adeiladau hynny

   (h) golyga "swyddog llyfrgell" y llyfrgellydd neu unrhyw un arall sy'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod llyfrgell er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf;

(i) fod y geiriau “eiddo llyfrgell” yn cynnwys:

- eiddo sydd ym mherchnogaeth neu sydd ar gael i ddefnydd yr awdurdod llyfrgell;
- eiddo nad yw ar gael i’r cyhoedd
- eiddo sydd yn cael ei fenthyg i’r cyhoedd neu at ddefnydd y cyhoedd;

(j) golyga “y Rheoliadau” – ‘Rheoliadau (Cymru a Lloegr) Tâl Llyfrgelloedd 1991’ - SI 1991/2712;

(k) defnydd geiriau:

- gall geiriau sydd o genedl wrywaidd gynnwys rhai benywaidd
- mae geiriau unigol yn cynnwys rhai lluosog
- mae geiriau lluosog cynnwys y rhai unigol

(l) Mae ystyr ymadroddion yn union fel y maent yn ymddangos yn y Ddeddf a’r Rheoliadau, os nad oes unrhyw ddatganiad yn dweud yn wahanol

2. Os yw swyddog llyfrgell yn cymryd camau penodol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd yn briodol, ni fydd yn cael ei farnu am dorri’r is-ddeddfau yma.

3. Ni chaiff neb roi enw na chyfeiriad ffug er mwyn cael mynediad i unrhyw ran o’r llyfrgell nac er mwyn defnyddio unrhyw un o gyfleusterau’r llyfrgell.

4. Mae gan y swyddog llyfrgell, yn ôl ei ddisgresiwn, yr hawl i wrthod mynediad i’r llyfrgell a’r defnydd o’r llyfrgell i unrhyw un sydd yn ei farn ef

- yn fudr a drewllyd fel person neu mewn gwisg ,
- sy’n ymddwyn mewn ffordd amhriodol i ddefnyddwyr eraill y llyfrgell
- sy’n yn ymddangos eu bod o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau .

5. Oni bai fod swyddog llyfrgell yn caniatáu, ni chaiff neb:

(a) beri na chaniatáu i unrhyw gi (ac eithrio ci’r deillion) nac unrhyw anifail arall sy’n eiddo neu dan ei reolaeth ddod i mewn i nac aros yn y llyfrgell;

(b) ddod â cherbyd ar olwynion (ac eithrio cadair-olwyn, pram neu droli siopa) i mewn i unrhyw ran o’r llyfrgell;

(c) fynd i mewn i, neu aros yn, unrhyw ran o’r llyfrgell lle y byddai person rhesymol yn gwybod na fyddai hawl gan y cyhoedd i fod yno;

(d) aros yn y llyfrgell ar ôl yr amser cau penodedig.

6. Dylai pawb adael y llyfrgell ar unwaith ar ôl cael gwybodaeth am sefyllfa frys.

7. Ni chaiff unrhyw un gymryd neu geisio mynd ag eiddo’r llyfrgell oddi yno neu heibio i’r offer ddiogelwch heb ganiatâd gan swyddog llyfrgell.

8. Nid yw'r isod yn cael eu caniatáu yn y llyfrgell:

- ymddwyn mewn modd afreolus
- defnyddio iaith ymosodol, sarhaus neu anweddus
- achosi niwed i berson neu eiddo yn fwriadol neu trwy esgeulustod

9. Ni chaiff neb, ar ôl ei rybuddio gan swyddog llyfrgell, barhau i gysgu yn y llyfrgell.

10. Ni all neb aros mewn llyfrgell oni bai ei fod yn gwneud y defnydd cywir o gyfarpar y llyfrgell ar ôl i'r swyddog llyfrgell ofyn iddo/iddi wneud y defnydd cywir ohono.

11. Ni chaiff neb yn aflonyddu ar , na rwystro unrhyw swyddog llyfrgell rhag gwneud ei waith, na tharfu, rhwystro, torri ar draws na phoeni unrhyw un arall a fydd yn gwneud defnydd priodol o'r llyfrgell.

12. Rhaid cael caniatâd y llyfrgellydd er mwyn arddangos, dosbarthu, gosod neu lynu unrhyw hysbyslen, poster neu rybudd mewn unrhyw ran o'r llyfrgell.

13. Ni chaiff neb, heb ganiatâd y llyfrgellydd, gynnig dim i'w werthu yn y llyfrgell na cheisio llofnodion ar ddeisebau.

14. Ni ddylai oedolyn adael plentyn ar ei ben ei hun yn y llyfrgell heb ganiatâd swyddog llyfrgell.

15. Ni chaiff neb ysmygu yn unrhyw ran o'r llyfrgell nac ar dir y Cyngor

16. Nid oes hawl bwyta yn y llyfrgell heb ganiatâd y swyddog llyfrgell

17. Rhaid cael caniatâd swyddog llyfrgell er mwyn defnyddio'r isod mewn mannau yn y llyfrgell sy'n agored i'r cyhoedd:

- unrhyw offer trydanol
- unrhyw offer darlledu sain
- unrhyw offer atgynhyrchu sain

18. Nid yw'n bosib i neb fenthyg unrhyw eiddo o'r llyfrgell heb ganiatâd y swyddog llyfrgell os oes ganddo:
- eiddo'r llyfrgell heb ei ddychwelyd o fewn y cyfnod benthyg
- ffi heb ei thalu am fod yn hwyr

19a Os yw unigolyn wedi derbyn rhybudd am fod yn hwyr yn dychwelyd eiddo'r llyfrgell, dylai sicrhau ei fod yn dychwelyd yr eiddo i unrhyw lyfrgell sydd yn aelod o bartneriaeth TALNET.

19b I bwrpas yr is-ddeddf yma mae'n bosib cyflwyno rhybudd i unrhyw berson trwy:

- fynd â'r rhybudd ato yn uniongyrchol
- ei adael yn y cyfeiriad diwethaf y bu'n byw ynddo
- ei anfon trwy'r post wedi'i gyfeirio ato yn y lle hwnnw.

20. Os bydd unigolyn yn ei gael yn euog o droseddu yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau uchod yn agored, bydd yn cael dirwy heb fod yn uwch na graddfa 2 ar y raddfa safonol.

21. Mae hawl gan y swyddog llyfrgell i wahardd unrhyw un oddi wrth unrhyw lyfrgell sydd yn cael ei rhedeg gan yr awdurdod llyfrgell, os yw'r unigolyn yn torri unrhyw un o'r is-ddeddfau uchod dan y Ddeddf.

22. Pan ddaw'r is-ddeddfau hyn i rym, bydd yr is-ddeddfau blaenorol sy'n ymwneud â llyfrgelloedd yn cael eu diddymu, sef yr is-ddeddfau a wnaed gan Gyngor Gwynedd, a gadarnhawyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a daeth yn weithredol 7fed o Dachwedd 2001

Gosodwyd <u>SÊL GYFFREDIN CYNGOR</u> )
<u>GWYNEDD</u> yma ym mhresenoldeb:- )

<u>Llofnodwr Awdurdodedig</u>

Bwriedir gweithredu'r is-ddeddfau diwygiedig o 1 Chwefror 2011 yn dilyn cyfnod ymgynghori.

Atgoffir defnyddwyr o'r llyfrgell , a defnyddwyr cyfleusterau llyfrgell, bod y gyfraith yn weithredol ar bob achlysur.